WG35.5 14

# CAN DDESGRIFIADOL O

# DAFYDD ISAAC DAVIES,

## GYNT O DY'R CAPEL LLANYMDDYFRI.

**Buddugol yn Eisteddfod y lle uchod.**

Dafydd Isaac, y mae adgof,
Am d' hynodion aml di,
'N peri fod dy goffadwriaeth
'N gyssegredig genym ni ?
Mwy ni allwn fyth anghofio,
Dy ffraethineb ar bob pryd,
Mae dy ddywediadau byrion,
Megis perlau yn ein bryd.

Mae prydferthwch 'n argraffedig,
Ar y creigiau cribog sydd
Yn syll-dremu yn ddaneddog,
Ar ogoniant teyrn y dydd ;
Hoffus genym roch y rhaiadr,
Pan yn brochu'n guchiog iawn,
Ac mae'r dymestl hithau weithiau,
Yn ein clustiau'n fiwsig llawn.

Mae'r ddynoliaeth fel mae anian,
Ac amrywiaeth ar ei gwedd,
Y mae ganddi'r addurnedig,
Wych ddysgawdwr ar ei sedd ;
Yn ei ymyl y mae hurtyn,
Anwybodus a difoes,
Arall un yn ffraeth a gweiddiol,
Neu feddyliwr pena'r Oes.

X2C 5 3 01786

641

Nid tlws berlyn caboledig,
Addysg wiwdeg blentyn nef
Ydoedd Dafydd Isaac hynod,
*Beauty unadorned* oedd ef;
Dwfn-wreiddiolder a ffraethineb,
A sarugrwydd yn cydgwrdd,
Heb ddiwylliant mwyn addysgiaeth,
Oedd yn ngwron y tŷ cwrdd.

Edrych wnai yn annaiarol
Hyll dychrynllyd iawn ei wedd,
Bychan, llwydaidd, un-llygeidiog,
Cloff, anafus hyd ei fedd;
Gwallt gor-grychiog, gwar-grymedig,
Wrth ei ffon ymlusgai'n mla'n,
A'r un llygad gwyllt a feddai,
Yn gwreichioni mellt a than.

" Oes gyhoeddiad i mi yma ? "
Ebe dieithr-ddyn * ryw dro,
Wedi curo dôr ty'r Capel,
A gwel'd Dafydd, wrtho fo
"Beth yw'ch enw ?" ebe Dafydd,
Gan hyll dremu'n salw iawn,
Yntau dd'wedai'n foneddigaidd,
Rhodd ei enw iddo'n llawn.

" Dyna enw 'rioed ni chlywais
I am danoch chwi o'r bla'n—
Ble mae'ch cartre ? o ble daethoch ?"
Ac o'i lygad gwreichiau tân ;
Gyda hyn y gwr a welwodd,
Heb yn gwybod beth i ddwe'yd,
" A ddysgyna'i ebai'n llariaidd,—
Nid wy'n gwybod beth i wneyd ".

" Beth i wneyd,—y dyn, a feiddiwch
Ddod ar gefn eich march i'r ty ?
Disgyn, gwnewch, gadewch eich ceffyl
Nawr o dan fy nghofal i "

* W. Llewelyn.

Wedi iddynt gyfeillachu,
Ac ymgomio wrth y tân,
Gwelai'r gwr o dan sarugrwydd,
Heddwch a thangnefedd glân.

O! y ffrydiau o hyawdledd
Mewn unigedd ffrydiai ma's,
Dros wefusau Dafydd Isaac,
Ar ddiderfyn olud gras;
Llawer gwledd fwynhawyd genym,
Yn llechwraidd wrth y dôr,
Pan bai Dafydd wrtho'i hunan.
Yn esbonio arfaeth Iôr,

Dacw'r bychan llwyd ei olwg,
'Nawr yn annerch gorsedd gras,
Yn gyhoeddus yn y Capel,
(Lle tywellti'r nefol flas;)
O! y nerth, y grym, a'r yni
Duwiolfrydig nefol sydd,
Yn mhob brawddeg ac ymadrodd,
Ac eglurder haner dydd.

Os yw'r llygad bychan yna,
Yn gwyllt-ennyn yma a thraw,
Y mae llygad ffydd ei enaid,
Yn mhellderau'r "byd a ddaw,"
Mwy na hyny dwg oleuni,
Pur danbeidrwydd nefol fyd,
Nes oedd arwydd presenoldeb
Y Shecinah yno i gyd.

Do, bu farw mewn tangnefedd,
Aeth ei enaid fry i'r nef,
Lle ca blymio yn ddiddarfod
I'w dragwyddol arfaeth Ef;
Os nachollodd yn yr afon
Ei hynodion ar y llawr,
Tebyg yw ei fod ef yno
Gan y llu yn *fav'rite* mawr.

THOMAS THOMAS. *(Ivor Glan Deuddwr*